APPENDIX B

**Cyfarwyddyd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr mewn Perthynas â'r Gofyniad i Hysbysu Gweinidogion Cymru am Geisiadau am Gydsyniad Adeilad Rhestredig**

1. Mae adran 13 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ("y Ddeddf") yn ei gwneud yn ofynnol, os yw awdurdod cynllunio lleol y gwneir cais am gydsyniad adeilad rhestredig iddo yn bwriadu rhoi cydsyniad, bod rhaid iddo hysbysu Gweinidogion Cymru am y cais yn gyntaf. Yna caiff Gweinidogion Cymru arfer eu pŵer o dan adran 12 o'r Ddeddf i alw'r cais i mewn i benderfynu arno, neu cânt roi hysbysiad i'r awdurdod cynllunio lleol bod angen rhagor o amser arnynt i ystyried y cyfeiriad, neu gallant hysbysu'r awdurdod nad yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu arfer eu pŵer galw i mewn.

2. Mae adran 15(1) o'r Ddeddf yn grymuso Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo nad oes angen rhoi hysbysiad o'r fath mewn perthynas â disgrifiadau penodol o geisiadau ac mae adran 15(6) o'r Ddeddf yn grymuso Gweinidogion Cymru i arfer y pŵer hwnnw mewn perthynas ag awdurdodau cynllunio lleol yn gyffredinol neu awdurdodau cynllunio lleol penodol neu ddisgrifiadau o awdurdodau.

3. I'r graddau y mae'r canlynol yn berthnasol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, o ddyddiad y Cyfarwyddyd hwn:

   a. mae'r Cyfarwyddyd o'r enw "Cyfarwyddyd Ceisiadau Cydsyniad Adeilad Rhestredig (Datgymhwyso Dyletswydd i Hysbysu Gweinidogion Cymru) (Cymru) 2017" sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad A o lythyr Cadw dyddiedig 2 Mai 2017 yn cael ei ddirymu; a

   b. mae'r Cyfarwyddyd a nodir ym mharagraffau 4 a 5 isod yn cael effaith.

4. Yn ddarostyngedig i baragraff 5 isod, trosglwyddwyd Gweinidogion Cymru, wrth arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 15(1) a (6) o Ddeddf 1990, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac sydd yn rhinwedd adran 162 o, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru, drwy hyn yn cyfarwyddo nad yw adran 13 o Ddeddf 1990 yn gymwys i geisiadau a gyflwynir i Gyngor Penybont am gydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer cyflawni gwaith sy'n effeithio ar du allan neu ar du mewn adeilad rhestredig gradd II (heb seren).

5. Bydd adran 13 o Ddeddf 1990 yn parhau i fod yn gymwys i geisiadau sy'n cael eu cyflwyno i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr am gydsyniad adeilad rhestredig:

   (i) sy'n cynnwys dymchwel. Yn y cyd-destun hwn, mae'r llysoedd wedi dyfarnu bod dymchwel yn golygu tynnu adeilad i lawr fel ei fod yn cael ei ddinistrio'n llwyr neu o leiaf i raddau sylweddol iawn (Shimizu (UK) Ltd v. Westminster Council (1997) 1 All E. R. 481);

   (ii) y mae'n ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ei gyflwyno i Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 9 o Reoliadau Cynllunio

(Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012 (O.S. 2012/793);

(iii) sy'n ymwneud â gwaith sy'n effeithio ar du allan adeiladau rhestredig gradd II (heb seren), lle mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn dymuno rhoi cydsyniad yn groes i gyngor Swyddog Cadwraeth Adeiladau a enwir neu lle, am ba bynnag reswm, ni fydd Swyddog Cadwraeth Adeiladau a enwir yn gallu cynnig cyngor ar y cais hwnnw. Y Swyddog Cadwraeth Adeiladau a enwir yw Ms Moira Lucas; neu

(iv) sy'n effeithio naill ai ar du mewn neu ar du allan adeilad rhestredig Gradd I neu II (â seren).

6. Wedi'i lofnodi gan Matthew Coward, dan awdurdod Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiad: 1 Chwefror 2023

**Direction to Bridgend County Borough Council in Respect of the Requirement to Notify the Welsh Ministers of Applications for Listed Building Consent**

1. Section 13 of the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) Act 1990 ("the Act") requires, if a local planning authority to which application is made for listed building consent intend to grant consent, that they must firstly notify the Welsh Ministers of the application. The Welsh Ministers may then exercise their power under section 12 of the Act to call-in the application for determination, or they may give notice to the local planning authority that they need further time in which to consider the reference, or they may notify the authority that the Welsh Ministers do not intend to exercise their call-in power.

2. Section 15(1) of the Act empowers the Welsh Ministers to direct that such notification is not required in respect of certain descriptions of applications and Section 15(6) of the Act empowers the Welsh Ministers to exercise that power in relation to local planning authorities generally or to particular local planning authorities or descriptions of authorities.

3. Insofar as the following apply to Bridgend County Borough Council, from the date of this Direction:

   a. the Direction entitled "Listed Building Consent Applications (Disapplication of Duty to Notify Welsh Ministers) (Wales) Direction 2017" included within Annex A of Cadw's letter dated 2 May 2017 is revoked; and

   b. the Direction set out in paragraphs 4 and 5 below has effect.

4. Subject to paragraph 5 below, the Welsh Ministers, in exercise of the powers which were conferred on the Secretary of State by section 15(1) and (6) of the 1990 Act, were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and which by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 are now exercisable by the Welsh Ministers, hereby direct that section 13 of the 1990 Act does not apply to applications submitted to Bridgend County Borough Council for listed building consent for the carrying out of work affecting the exterior or interior of a grade II (unstarred) listed building.

5. Section 13 of the 1990 Act will continue to apply to applications submitted to Bridgend County Borough Council for listed building consent:

   (v) which involve demolition. In this context, the courts have ruled that demolition amounts to pulling down a building so that it is destroyed completely or at least to a very significant extent (Shimizu (UK) Ltd v. Westminster Council (1997) 1 All E. R. 481);
   (vi) which Bridgend County Borough Council is required to submit to the Welsh Ministers in accordance with regulation 9 of the Planning (Listed Buildings and Conservation Areas) (Wales) Regulations 2012 (S.I. 2012/793);
   (vii) relating to works affecting the exterior of grade II (unstarred) listed buildings, where Bridgend County Borough Council wishes to grant

consent contrary to the advice of a named Building Conservation Officer or where, for whatever reason, a named Building Conservation Officer will not be able to offer advice on that application. The named Building Conservation Officer is Ms Moira Lucas; or

(viii) which affects either the interior or exterior of a Grade I or II (starred) listed building.

6. Signed by Matthew Coward under authority of the Deputy Minister for Arts & Sport and Chief Whip, one of the Welsh Ministers.

Date: 1 February 2023